

**ADOLYGIAD O'R IAITH
GYMRAEG GAN GYNULLIAD
CENEDLAETHOL CYMRU**

**YMATEB GAN GYMDEITHAS
LLYWODRAETH LEOL CYMRU**



Rhagair

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn ddiolchgar am y cyfle hwn i gyflwyno'i sylwadau ar y mater hanfodol hwn i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol.

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei gadarnhau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (yn unol ag adran 14(i) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg, 1993) ar 20 Awst 1999. Nododd thema ganolog y cynllun fod y Gymdeithas

"...wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth drafod busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg".

Mae'r cynllun hwn yn ceisio gofalu bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael statws cyfartal yn ddieithriad pan fo'r Gymdeithas yn delio â defnyddwyr ei gwasanaethau, h.y:

- Aelodau etholedig a swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru;
- Unrhyw sefydliadau y mae'r Gymdeithas yn gweithio gyda nhw, neu'n dod i gysylltiad â nhw;

Fel y cyfryw, bydd y Gymdeithas yn ceisio galluogi pawb sy'n defnyddio'i gwasanaethau i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl dewis personol.

Yn wahanol i awdurdod lleol, nid yw CLILC yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i bobl Cymru. Serch hynny, pan yw'n derbyn ceisiadau am wybodaeth bydd yn ymateb drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl dewis personol.

Yn ogystal, mae'r cynllun yn ceisio cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn llywodraeth leol yng Nghymru ac ymhlith partneriaid y Gymdeithas a'r cyrff y mae'n cydweithio â nhw.

Cefndir

Nod y Cynulliad Cenedlaethol, a nodir yn ei ddogfen *Gwell Cymru*, yw creu "Cymru ddwyieithog". Er bod y diffiniad o "Gymru ddwyieithog" yn aneglur, tybir mai'r rhesymeg y tu ôl i'r datganiad yw y dylai pob dinesydd allu disgwyl cael mynediad i wasanaethau yn y naill neu'r llall o ieithoedd swyddogol Cymru – Cymraeg neu Saesneg.

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) yn gorfodi sefydliadau cyhoeddus i ddarparu gwasanaeth dwyieithog pan ofynnir amdano. Mae Cymru, wrth gwrs, yn wlad amlieithog â dwy iaith swyddogol. Mae bron pawb yng Nghymru yn siarad Saesneg, ac mae tua 20% yn siarad Cymraeg hefyd. Felly, mae'n naturiol taw'r iaith "ddiofyn" mewn busnes, llywodraeth a meysydd eraill yw Saesneg.

Fodd bynnag, mae peth amheuaeth a yw'r sefyllfa hon yn gwir adlewyrchu'r Ddeddf. Gellid dadlau, er enghraifft, trwy ddisgwyl i rywun ofyn am wasanaeth yn Gymraeg lle byddai gwasanaeth cyfrwng-Saesneg yn cael ei ddarparu yn awtomatig, nad yw mynediad i wasanaeth cyfrwng-Cymraeg wedi cael ei "normaleiddio".

Er mwyn llwyddo i "normaleiddio" y defnydd o'r Gymraeg, mae angen cryn dipyn o sensitifrwydd ar ran y ddwy gymuned iaith. Rhaid i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg beidio â theimlo eu bod yn ddieithriaid neu'n cael eu hamddifadu o gyfleoedd, ac ni ddylai siaradwyr Cymraeg ychwaith fod â lle i gredu nad yw eu hiaith yn cael ei chydabod yn llawn yng Nghymru. Mae Cymru'n wlad amlddiwylliannol ac amlieithog sydd â hanes anrhydeddus o integreiddio heddychlon, lle gall pobl o gefndiroedd ieithyddol ac ethnig gwahanol fyw ochr yn ochr.

Os ydym i gael gwir ddwyieithrwydd, rhaid rhoi gwell cyfle i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'u hiaith ddewisedig heb elyniaethu'r mwyafrif di-Gymraeg. Mae'n anodd cael cydbwysedd ac, os ydym i gael consensws cenedlaethol, bydd angen strategaeth hirdymor, wedi'i llunio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a fydd yn cynnwys sawl cam wedi'u diffinio'n glir.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol ystyried ystyr y term "dwyieithrwydd" a'r defnydd presennol o'r iaith Gymraeg. Ystyr sylfaenol "dwyieithrwydd" yng nghyd-destun ieithoedd Cymru yw'r defnydd gwahanol o'r ddwy iaith swyddogol mewn gwahanol amgylchiadau. Ar y cyfan, defnyddir y Gymraeg mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol na'r Saesneg. Felly, mae'r defnydd y bydd siaradwr Cymraeg yn ei wneud o'i iaith / hiaith gyntaf yn dibynnu nid ar flaenoriaeth bersonol, ond ar yr amgylchiadau dan sylw.

Am amryw resymau, un o nodweddion dwyieithrwydd yng Nghymru yw bod mwy o gyfle i

ddefnyddio Saesneg na Chymraeg. Felly, mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio Saesneg yn amlach na Chymraeg mewn sefyllfaoedd cyhoeddus a ffurfiol. Gall hyn yn ei dro arwain at berthynas gymdeithasol anghyfartal ac anghytwys rhwng yr ieithoedd, ac yn y pen draw gallai hyn olygu diflaniad y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw. Mae'r dyfyniad a ganlyn, o eiddo Fishman, yn esbonio'r camau clir y gellir eu cymryd i ddelio â'r cyfryw sefyllfa a'i newid:

``Without separate though complementary norms and values to establish and maintain functional separatism of the speech varieties, that language or variety which is fortunate enough to be associated with the predominant drift of social forces tends to displace the other(s)."

"Bilingualism with and without diglossia; diglossia with and without bilingualism." (*Journal of Social Issues* [1967] 23: 2.29-38)

Onid ystyrir y goblygiadau posibl hyn, ni fydd unrhyw strategaethau dan arweiniad y Cynulliad Cenedlaethol i wella sefyllfa'r iaith Gymraeg yn cael fawr o effaith – mewn gwirionedd, fe allai strategaethau nad ydynt yn adlewyrchu realiti statws a sefyllfa gyfredol yr iaith Gymraeg achosi niwed iddi.

Cyflwyniad

At ddibenion y papur hwn, ni ddylid dehongli'r diffiniad geo-ieithyddol o'r gair "cymuned" fel grwpiau o bobl sy'n rhwydweithio â'i gilydd. Yn ogystal, ystyr "gweinyddiaeth Gymraeg" yw gweinyddiaeth fewnol sy'n gallu cyflenwi gwasanaeth allanol yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r materion a ganlyn yn faterion macro ac felly mae iddynt oblygiadau eang

Ceir lluo o gyfeiriadau diweddar at yr iaith Gymraeg mewn strategaethau a pholisïau Cymru-gyfan, ond, ar y cyfan, cyfyng yw eu gweledigaeth a'u hymrwymiad i ddarparu arian i warchod yr iaith Gymraeg. Er enghraifft, mae "Gwell Cymru" yn datgan y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ceisio sicrhau, erbyn 2010, y "dylai cyfran y boblogaeth gyfan a all siarad Cymraeg fod wedi tyfu, gyda'r cynnydd mwyaf ymhlith pobl ifanc" (tudalen 23). Fodd bynnag, mae hyn yn amlygu pa mor fregus yn gyffredinol yw'r berthynas rhwng y sefyllfa yn y cymunedau Cymraeg eu hiaith a'r adnoddau sydd ar gael er mwyn cyrraedd y nod hwn. Ar hyn o bryd, mae llywodraeth leol yn rhannu hanner cyllideb flynyddol y Cynulliad Cenedlaethol o £10.548 miliwn, ac mae'n wir dweud fod gan lywodraeth leol ran allweddol i'w chwarae o ran adfywio'r iaith Gymraeg. Er mwyn cyrraedd y nod hwn, rhaid i ewyllys wleidyddol fod yn gefn cadarn i unrhyw bolisi neu gynllun, oherwydd bydd rhyddhau digon o adnoddau o ffynonellau canolog, o fewn

cyllidebau cyfyngedig, yn golygu aiddosbarthiad pellgyrhaeddol o'r blaenoriaethau. Yn ôl Cyllideb Ddrafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2002-03, bydd £7.28m yn cael ei wario yn uniongyrchol ar yr iaith Gymraeg (0.069% o'r holl gyllideb). Os ydym i warchod, cynnal a datblygu cymunedau dwyieithog, gellid dadlau fod angen llawer iawn mwy o arian i ddarparu nid unig y cyllid ar gyfer rhaglenni addysgu a dysgu, ond hefyd i roi cyfle i bobl ddefnyddio'r iaith.

Pe bai'r weinyddiaeth yn dewis darparu mwy o arian, gall llywodraeth leol ddechrau proses hirdymor i sefydlu a datblygu gweinyddiaeth ddwyieithog a fyddai'n darparu haen o lywodraeth – yr haen a ddefnyddir fwyaf gan y cyhoedd – lle mae'n haws defnyddio dwy iaith genedlaethol Cymru. Gellid cyflawni hyn drwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol mewnol yn Gymraeg i unrhyw aelodau o'r staff sy'n dymuno dysgu'r iaith fel rhan o gynllun datblygiad personol. Gallai hyfforddiant o'r fath ddefnyddio technegau trochi sy'n bodoli, gan ddewis y lefelau priodol o drochi. Mae llwyddiant Cyngor Sir Gwynedd yn hyn o beth yn ddiarnheul a dylid ei annog ledled gweddill Cymru.

Yn rhannol, mae dysgu Cymraeg yn seiliedig ar batrwm "trochi" Canada, sef patrwm a gafodd ei fabwysiadu mewn sectorau gwahanol yng Nghymru. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gomisiynu ar fyrder ymchwil i strategaethau sydd eisoes yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus mewn ardaloedd awdurdodau lleol megis Cyngor Sir Gwynedd. Gellid defnyddio canlyniadau'r cyfryw ymchwil wedyn wrth sefydlu cynlluniau hyfforddiant trochi gwirfoddol cyn sefydlu fframweithiau a fyddai o fudd i ardaloedd awdurdodau lleol eraill lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn siarad neu'n deall Cymraeg (e.e. dros 55% o'r boblogaeth). Dylai ardaloedd awdurdodau lleol eraill lle mae nifer resymol o'r bobl yn siarad neu'n deall Cymraeg dderbyn proffiliau geo-ieithyddol. Fe ddylai ardaloedd lle nad yw cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn ddwyieithog fanteisio ar ymchwil wedi'i noddi gan y Cynulliad i lunio proffil ieithyddol o'r gweithwyr.

Byddai mabwysiadu gwaith ymchwil o'r fath a strategaethau dilynol yn rhaglen hirdymor. Mae darparu cynlluniau dysgu Cymraeg - sy'n hygyrch, o werth ac yn briodol i'r angen - yn allweddol yn hyn o beth. Er y bydd rhai ardaloedd yn gallu gwneud cynnydd eithaf cyflym, bydd angen cyfnod hirach ar ardaloedd eraill i weithredu'r cynllun yn llawn cyn y gallant lwyngyflenwi eu gwasanaethau yn y ddwy iaith.

Awgrymir y gallai cynlluniau iaith awdurdodau lleol sy'n bodoli fod yn fan cychwyn. Dylai'r Prif Weithredwr, yr Uwch Swyddog Polisi a'r Swyddog Iaith Gymraeg ym mhob awdurdod lleol fod yn ganolog i unrhyw strategaethau sy'n deillio o'r gwaith hwn, yn enwedig y rhai sydd â goblygiadau o ran adnoddau.

Mewn rhannau eraill o'r byd, mae strategaethau o'r fath eisoes yn ffactorau cynhenid mewn cynllunio iaith sydd â goblygiadau trawslywodraethol. Unwaith y cafwyd cytundeb ynghylch ceisio cael gweinyddiaeth ddwyieithog yn y sectorau cyhoeddus [a phreifat](#), gweithredodd llywodraeth Gwlad y Basg yr EBPN (Cynllun Sylfaenol Adfywio'r Fasgeg) – cynllun dros gyfnod o ddeng mlynedd sy'n cynnwys pob haen o lywodraeth yng Ngwlad y Basg, [yn ogystal â'r sectorau preifat a gwirfoddol](#). Oddi mewn i'r cynllun, mae IRALE (dysgu iaith yn y gweithle) llywodraeth Gwlad y Basg wedi dangos ymrwymiad i'r iaith

oddi mewn i'w ffiniau. Fodd bynnag, ni chafodd cynllunio o'r fath ei gyfyngu i ieithoedd y lleiafrif – mae'r Goethe Institut Inter Nationes yn derbyn £100m yn flynyddol gan Swyddfa Gartref yr Almaen i ddysgu Almaeneg yn fyd-eang ac i 25,000 o bobl yn yr Almaen bob blwyddyn drwy gyfrwng rhaglenni trochi.

Nid ar chwarae bach y mae ymgymryd â'r cyfryw bolisi. Fodd bynnag, dim ond trwy gymryd camau tebyg i'r rhain y gall llywodraeth leol yng Nghymru gynorthwyo i warchod, cynnal a datblygu cymunedau a all fynegi eu hunain ym mhob cyd-destun yn eu dewis iaith.

1. TEULUOEDD A CHYMUNEDAU

Cynllunio Strategol

Mae gan Gymru sawl cymuned ethnig a ieithyddol sy'n cyd-fyw'n hapus. Un o'r rhesymau pennaf am hyn yw'r ffaith fod dwy iaith wahanol yn bodoli ers canrifoedd yng Nghymru, a bod diwylliannau gwahanol wedi deillio o hynny. Mae parhad yr amrywiaeth hwn, a goroesiad yr iaith Gymraeg, yn dibynnu ar:

- o datblygu strategaethau a fydd yn cynorthwyo'r iaith, yn ei chadarnleoedd traddodiadol a thu hwnt;
- o cynnal ewyllys da pawb yng Nghymru

Rhaid seilio hyn ar ddealltwriaeth sylfaenol fod ieithoedd swyddogol Cymru yn gydradd â'i gilydd. Ni ddylai un ddisodli'r llall. Yn ymarferol mae hyn yn golygu na ddylai pobl ddi-Gymraeg deimlo eu bod yn cael eu gorfodi i ddysgu'r iaith. Ac ni ddylai siaradwyr Cymraeg deimlo fod eu hawl i ddefnyddio eu hiaith yn cael ei lesteirio am fod Cymry eraill yn gwrthod darparu ar gyfer defnyddio'r iaith. Fel yr ydym wedi datgan eisoes, mae'n anodd cael cydbwysedd. I ddechrau, mae gan bobl ddi-Gymraeg yr hawl yr hawl i fyw a gweithio lle bynnag y maent yn dymuno ac i siarad pa iaith bynnag a ddewisir ganddynt. Ar y llaw arall, mae'r ffaith nad yw llawer yn dymuno dysgu Cymraeg na gofalu bod gwasanaeth Cymraeg ar gael yn bwrw yn erbyn hawl y siaradwr Cymraeg i ddefnyddio ei iaith/ hiaith fel y mae y mae ef neu hi'n dymuno gwneud.

Os yw'r iaith Gymraeg i oroesi, rhaid iddi fod yn iaith y gymuned. Er mwyn sicrhau hynny rhaid ailgodi nifer y siaradwyr Cymraeg a'u hyder wrth ddefnyddio'r iaith. Rhaid cymell sefydliadau i roi cyfle i'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg. Nid iaith y cartref yn unig mo'r Gymraeg.

Mae angen i gymunedau Daearyddol, Sefydliadol a Chorfforaethol ddod o hyd i ffyrdd o gyfathrebu â'r sefydliad perthnasol yn eu dewis iaith. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ganllawiau clir i gynnwys yr amrywiaeth o gyff sy'n gweithredu, yn darparu, yn cyflenwi neu'n targedu gwasanaethau ar ran awdurdodau lleol, p'un ai ydynt yn gyff sy'n dyfarnu grantiau, yn bartneriaethau neu'n strategaethau datblygu cymunedol. Fe allai'r potensial

o ran cael gweinyddiaeth ddwyieithog mewn rhai sefydliadau fod yn ffactor allweddol wrth wneud y sefyllfa'n fwy eglur.

Gyda golwg ar ddarparu cyfarwyddyd clir i awdurdodau lleol ar sut i warchod yr iaith Gymraeg yn y gymuned, fe ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol drefnu cynhadledd anffurfiol, a gwahodd swyddogion cynllunio perthnasol (gan gynnwys swyddogion cynllunio awdurdodau lleol a swyddogion o gyrff proffesiynol perthnasol megis y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi). Bydd hyn yn fforwm i drafod pa mor ddymunol ac ymarferol fyddai Asesiad Effaith Iaith ac i ystyried elfennau o gynlluniau sy'n cael eu cynnwys yng Nghynllun Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd (1988) a'r Adolygiad o Gynllun Parc Cenedlaethol Exmoor (Mawrth 2001) yng nghyd-destun Cynlluniau Lleol Unedol sy'n effeithio ar yr iaith Gymraeg.

Cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg

Dylid creu ffynhonnell gyllido sy'n cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg (yn debyg i'r rhaglenni a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Gwynedd) i'r gymuned. Mae gan ELWa (a chynrychiolwyr y Sefydliad Hyfforddiant Cenedlaethol Llywodraeth Leol yng Nghymru - yr LGNTO) gyfle i ddatgan a yw'r Gymraeg yn sgil ai peidio, ac a ddylid ei hybu fel y cyfryw, ac i ddarparu cyfleoedd sy'n adlewyrchu hyn i ddysgu'r iaith. Yn lleol, bydd Cynghorau Canolog Addysg a Hyfforddiant (CCETs), fel rhan o'u cylch gwaith yn chwilio i weld lle mae angen darparu hyfforddiant, a gall hyn gynnwys hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. drwy ddarparu adnoddau i adlewyrchu'r angen am diwtoriaid galwedigaethol cyfrwng Cymraeg, a hyfforddiant yn Gymraeg pan fo hynny'n briodol. Yng Ngwlad y Basg mae canolfannau iaith yn cael eu rhedeg gan y llywodraeth ganolog a sefydliadau preifat a gwirfoddol. Efallai yr hoffai'r Cynulliad dreialu unrhyw gynllun a gynigir mewn ardaloedd awdurdodau lleol cyn lansio'r rhaglen (os yw'r treialon yn llwyddiannus) mewn rhannau eraill o Gymru.

Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Ni fydd unrhyw bwrpas mewn darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg oni cheir cyfle i ddefnyddio'r iaith. Gellid dadlau mai profiad llawer o blant o ran yr iaith, yn enwedig yn y de-ddwyrain, yw ei bod yn cael ei defnyddio yn ystod diwrnodau'r wythnos yn unig, rhwng 9am a 3.30pm am 39 wythnos y flwyddyn. Os nad yw pobl ifanc yn cael cyfle i ddefnyddio'r iaith bryd arall, nid oes sicrwydd y byddant yn dal i ddefnyddio'r iaith ar ôl gorffen eu haddysg ffurfiol.

Mae Urdd Gobaith Cymru, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Mentrau Iaith ac eraill yn cynnig cyfle gwerthfawr, ond ni allwn ddibynnu'n llwyr ar unigolion yn cefnogi mentrau o'r fath ar gyfer parhad yr iaith. Dim ond pan fydd hi'n bosibl defnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol a swyddogol - ac y bydd digon o siaradwyr yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r iaith – y bydd statws a'r defnydd o'r iaith yn cynyddu.

Diffyg hyder

Mae diffyg hyder yn ffactor allweddol o ran pam nad yw pobl yn defnyddio'r Gymraeg. Mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn teimlo nad yw eu Cymraeg yn ddigon da i'w defnyddio'n swyddogol neu'n gyhoeddus. Mae tua 20% o boblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg, ond nifer gymharol fach fyddai'n ddigon hyderus i ddefnyddio'r iaith wrth lenwi ffurflenni swyddogol neu ddelio â chyrrff cyhoeddus (megis y Cynulliad Cenedlaethol neu awdurdod lleol) neu gyrff rhannol gyhoeddus (megis Nwy Prydain).

Er mwyn gwneud siaradwyr Cymraeg yn fwy hyderus, dylid sicrhau'r pethau a ganlyn:

- Digon o gyfle i ddefnyddio'r iaith yn gyhoeddus er mwyn gwneud mwy o ddefnydd ohoni;
- Cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg wella'u sgiliau iaith;
- Cyfieithwyr i ofalu bod yna gysondeb yn y termau a ddefnyddir mewn pob math o sefyllfa lle gall siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith, o dderbyn biliau i drafod cwynion gyda darparwyr gwasanaeth. Mae Canolfan Bedwyr wedi gwneud peth o'r gwaith hwn eisoes, ond mae angen i'r gwaith barhau er mwyn sicrhau terminoleg gyson sy'n gwneud synnwyr i siaradwyr Cymraeg.

Y cyfryngau

Mae sefydlu S4C a llwyddiant y rhaglenni chwaraeon ac operâu sebon wedi bod o fudd i'r iaith Gymraeg ac wedi rhoi cyfle i bobl ddi-Gymraeg gael hyd i'r iaith yn anffurfiol.

Yn yr un modd, mae cylchgronau a chyfnodolion Cymraeg yn hybu'r iaith ac yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ddarllen yr iaith yn rheolaidd. Serch hynny, mae profiad yn awgrymu mai'r rhai sy'n teimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio'r Gymraeg sy'n darllen y rhain. Rhaid dal ar gyfleoedd i alluogi pobl i weld yr iaith. Mae'r *Western Mail* a'r *Daily Post* i'w canmol am gynnwys y Gymraeg ar eu tudalennau, a dylid eu symbylu i wneud mwy i'r cyfeiriad hwn. Gallent, er enghraifft, gael eu cefnogi i ddarparu adran newyddion ddyddiol yn Gymraeg – dwy dudalen dyweder – a allai fod yn gyflwyniad cyflym a rhwydd i Gymraeg ysgrifenedig.

Mae gan y cyfryngau ran allweddol i'w chwarae mewn normaleiddio statws yr iaith Gymraeg. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru rôl allweddol hefyd yn hyn o beth o ran pennu strategaethau i wneud pobl yn ymwybodol o'r iaith a gwneud mwy o ddefnydd ohoni.

Addysg

Er bod yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar yr iaith Gymraeg y tu allan i gyd-destun addysg ffurfiol, mae gan y system addysg ran allweddol i'w chwarae wrth osod y sylfeini.

Mae'r nod o ofalu bod pob plentyn tair oed yn cael lle mewn addysg – os yw eu rhieni'n dymuno hynny – yn gam pwysig a allai gyfrannu at y defnydd a wneir o'r iaith. Er bod y

cyfnod hwn y tu allan i'r cyfnod addysg orfodol (5-16), gellid defnyddio'r cyfle a roddir yn ystod y cyfnod cynnar hwn i gyflwyno'r Gymraeg i blant. Am mai elfennol iawn yw'r anghenion iaith bryd hynny, ni fyddai angen fawr ddim o hyfforddiant ychwanegol ar diwtoriaid ac athrawon.

Mae mwy o bryder ynghylch byd newydd addysg a hyfforddiant ôl-16 oed. Mae disgwyl i ELWa, ac o'r herwydd, y 22 Cyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant, ddarparu digon o gyfleoedd dysgu cost-effeithiol sy'n addas ar gyfer anghenion lleol. Mynegwyd peth pryder y gallai'r amodau hyn gyfyngu ar y ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith y lleiafrif (ac, i'r gwrthwyneb, ar hyfforddiant cyfrwng Saesneg mewn ardaloedd lle siaredir Cymraeg yn helaeth). Rhaid i unrhyw ddatblygiad yn strwythur addysg a hyfforddiant ôl-16 beidio â chael effaith andwyol ar y rhai sy'n dymuno cael hyfforddiant yn eu hiaith gyntaf, un ai yn Gymraeg neu Saesneg.

1. DATBLYGU ECONOMAIDD

Mae economi Cymru wedi newid yn ddirfawr yn ystod y 70 mlynedd diwethaf. Mae diwydiannau gwledig wedi dioddef sawl anhawster, ac nid yw'r diwydiannau trwm, fel glo a dur, ond megis cysgod o'r hyn oeddynt. Fel canlyniad, mae demograffeg a phatrymau byw pobl Cymru wedi newid yn ddramatig. Os yw'r cymunedau a grëwyd i wasanaethu'r diwydiannau hyn - trefi cymoedd De Cymru a threfi marchnad a phentrefi amaethyddol Cymru wledig – i barhau, rhaid iddynt ddod o hyd i fathau newydd o gyflogaeth a ffyrdd newydd o ofalu bod y bobl ifanc sy'n tyfu i fyny yn yr ardaloedd hynny yn aros yn eu hardal. Yng nghyd-destun yr adolygiad hwn, nid oes amheuaeth nad yw dyfodol yr iaith Gymraeg yn ei chadarnleoedd wedi'i gysylltu'n annatod â chyflwr economaidd y cyfryw ardaloedd. Yn y cyd-destun hwn, rhaid cymell cwmnïau preifat i edrych y tu hwnt i Gaerdydd wrth ystyried canolfan - a rhaid i sefydliadau cyhoeddus, megis y Cynulliad Cenedlaethol, osod esiampl. Os yw ardaloedd cefn gwlad a'r cymoedd i oroesi, rhaid iddynt gael buddsoddiad a swyddi o safon.

Polisi Strategol

Rhaid i bob un o gynlluniau'r Cynulliad Cenedlaethol roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg. Er enghraifft, nid yw'r Dogfennau Rhaglennu Sengl sy'n delio ag arian Amcan 1, yn cyfeirio fawr ddim at yr iaith Gymraeg, nac at y ddarpariaeth o gyflogaeth neu hyfforddiant a all ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Credwn fod cwmnïau gwybodus yn aml yn dymuno buddsoddi yng Nghymru oherwydd fod gan Gymru ddwy iaith a dau ddiwylliant gwahanol.

Datganoli rhanbarthol

Ar y dechrau, ymrwymodd y Cynulliad Cenedlaethol i brofi ei fod yn Gynulliad i Gymru gyfan, ac nid yn sefydliad arall eto ym Mae Caerdydd. Er na chafwyd prawf ymarferol o hyn eto, rydym yn croesawu awgrymiadau diweddar gan y Prif Weinidog y caiff y Gwasanaeth Sifil ei "ddatganoli" i ganolfannau rhanbarthol.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru ac ELWa ill dau wedi gosod esiamplau calonogol iawn wrth ddatganoli eu gwaith i swyddfeydd rhanbarthol ledled Cymru. Wrth gwrs, mae lleoliad y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd, a'r angen i lawer o sefydliadau gael eu lleoli yn agos at y brifddinas, yn golygu fod llawer o gyrff â'u pencadlys yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw reswm pam na ellir lleoli swyddogion rhanbarthol yn yr ardaloedd a wasanaethir ganddynt.

Tra bo cadarnleoedd yr iaith yn dal i fod yn ardaloedd gwledig gogledd a gorllewin Cymru, yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf cafwyd diddordeb o'r newydd yn yr iaith mewn ardaloedd eraill, yn enwedig yn y cymoedd. Bellach, mae'r cymunedau hyn yn allweddol i ddyfodol yr iaith. Fel yr ydym wedi datgan yn barod, un o'r prif fygythiadau i'r cymunedau yn y cymoedd a chefn gwlad yw'r diffyg cymharol o waith addas â chyflog da – ac oherwydd hynny, yr allfudiad o bobl ifanc i Gaerdydd a thu hwnt. Heb economi gryf ledled Cymru, ni fydd yr ardaloedd hyn yn goroesi. Ni fydd yn bosibl cynnal amwynderau lleol, bydd ysgolion yn cau. Mae hwn yn fater sydd uwchlaw dadl yr iaith. Mae parhad rhannau helaeth o gymdeithas Cymru yn y fantol.

Manteision i gyflogwyr

Dylai'r haenau gwahanol o lywodraeth yng Nghymru ystyried codi'r ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a phwysleisio'r manteision o gynnal gweithlu sy'n gallu gweithio yn ddwyieithog. Mae bod yn gwbl ddwyieithog yn gyhoeddus yn creu gwell perthynas â siaradwyr Cymraeg. Efallai yr hoffai Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru bwysleisio bodolaeth yr iaith a sut y gall fod o fantais i fusnes. Gall dwyieithrwydd fod yn fantais, yn hytrach na rhwystr, i fusnes llwyddiannus.

Ceir dadl y gellid trin yr iaith Gymraeg ym myd busnes fel y mae'n cael ei thrin ar hyn o bryd ym myd addysg – h.y. mae athrawon yn derbyn lwfans/ grant pan fyddant yn cael hyfforddiant i addysgu pwnc â phrinder athrawon megis Cymraeg, ac felly mae'r iaith yn cael ei thrin fel sgil. Nid oes fawr o amheuaeth na fyddai cynorthwyo cyflogwyr fel hyn yn codi statws yr iaith ac yn cymell pobl i'w defnyddio. Mantais ychwanegol fyddai y gellid lleihau costau cyfieithu yn sylweddol oherwydd byddai mwy o staff yn gallu delio ag ymholiadau/ gohebiaeth yn ddwyieithog. Eto, byddai rhagor o gyrsiau Cymraeg sylfaenol a chanolradd yn help i "normaleiddio'r" defnydd o'r iaith.

Trafnidiaeth

Mae ansawdd gwael seilwaith trafndiaeth yng Nghymru yn annerbyniol ac yn ffactor allweddol yn y methiant parhaus i ddenu rhagor o gyflogwyr mawr i Gymru wledig. Mae'r tair prif reilffordd yn rhedeg, yn annibynnol ar ei gilydd, o'r Gorllewin i'r Dwyrain. Byddai taith o Abertawe i Aberystwyth, sef pellter o 70 milltir yn unig, yn cymryd dros 3 awr mewn trê'n a byddai'n golygu newid ddwywaith, unwaith yng nghanolbarth Lloegr! Mae'r briffordd rhwng y gogledd a'r de yn cynnwys un lôn yn bennaf ac yn gul mewn llawer man – eto, mae taith 200 milltir o Gaerdydd i Fangor yn cymryd 4.5 awr fel arfer. Ni all Cymru, ac ni fydd Cymru yn llwyddo i ddenu buddsoddiad sylweddol i ardaloedd gwledig oni bai fod seilwaith trafndiaeth yn gwella. Mae cynlluniau diweddar i gynyddu'r gwariant ar yr A470 a'r A468 i'w croesawu, ond rhaid cael mwy o welliannau cyson.

Os ydym am weld yr economi wledig yn adfywio a ffynnu, rhaid i ni greu seilwaith trafnidiaeth sylfaenol sy'n cymell cyflogwyr i fuddsoddi i ffwrdd oddi wrth brif goridorau'r M4/A55. Am fod llywodraeth y DG yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar drafnidiaeth, yn enwedig y rheilffyrdd, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gyfle euraid i ofalu nad yw Cymru yn colli buddsoddi er mwyn diwallu anghenion de-ddwyrain Lloegr.

Twristiaeth

Mae'r diwydiant hwn yn hanfodol i economi Cymru, a daw'n bwysicach eto. Drwy gefnogi a datblygu twristiaeth ddiwylliannol, gallai'r diwydiant twristiaeth hybu'r defnydd o'r iaith a rhoi hwb i'r economi leol ar yr un pryd, e.e. canolfan iaith Nant Gwrtheyrn, Parc Treftadaeth y Rhondda, Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Eryri ac Arfordir Penfro. Yn ogystal, rhaid manteisio ar draddodiadau gwledig ac amaethyddol mewn rhai ardaloedd o Gymru.

Dylai Bwrdd Croeso Cymru ddechrau drwy sefydlu rhaglenni marchnata parhaus sy'n gwneud mwy i ddefnyddio natur ddwyieithog y wlad i ddenu ymwelwyr. Roedd hysbysebion teledu gan y Bwrdd ar S4C yn ddiweddar yn Saesneg gydag is-deitlau Cymraeg – siawns na ellid defnyddio'r iaith yn well drwy ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o ymgyrch cyfrwng Saesneg

2. YMCHWIL A DATBLYGU

Effeithiau mewnfudo ac allfudo

Un o'r agweddau mwyaf annisgwyl, a siomedig, i ddeillio o'r ddadl ar yr iaith Gymraeg yr haf diwethaf yw bod y data ynghylch effaith mewnfudo ac allfudo a ffenomenâu cymdeithasol eraill (megis datblygiadau tai) ar yr iaith Gymraeg a chymunedau Cymraeg yn dameidiog ar y gorau a heb fodoli ar y gwaethaf. Nid oes ffigurau dibynadwy ar gael ychwaith ynghylch nifer y Cymry Cymraeg yng Nghymru neu'r tu allan i Gymru. Ni ellir cynnal dadl synhwyrol ar y pwnc hollbwysig hwn heb ddata cynhwysfawr a dilys. Ni all peidio â buddsoddi'n ddigonol mewn ymchwil o'r math hwn ond arwain at ragor o sefyllfaoedd anffodus fel un y llynedd.

Mae awdurdodau lleol eisoes yn archwilio anghenion tai ac yn cynnal adolygiadau iaith yn unol â gofynion llywodraeth ganolog. Fe allai ymchwil bellach gynnwys effaith y patrymau mudo, ffactor sydd eisoes yn rhan o ddogfennau polisi sawl awdurdod – yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle ceir ysgolion bach mewn ardaloedd sy'n seiliedig ar batrymau hanesyddol yn hytrach na'r patrymau demograffig presennol. Fe allai Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru grynhoi gwybodaeth o'r fath y gellid ei ddefnyddio wedyn wrth wneud penderfyniadau ehangach ar ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn enghraifft dda o fwydo'r broses gwneud penderfyniadau o'r bôn yn ogystal ag o'r brig.

Addysgu Cymraeg i oedolion

Nid yw'n ymddangos fod cyrsiau Cymraeg i oedolion yn cael eu defnyddio gan bobl sy'n symud i mewn i Gymru (hyd yn oed mewn ardaloedd Cymraeg) na'r Cymry di-Gymraeg. Ac nid yw'r

ganran yn uchel ychwaith parthed y rhai sy'n dechrau dysgu'r iaith drwy gyfrwng dulliau cyfredol ac sy'n llwyddo. Mae'r rhesymau am hyn yn amrywiol a chymhleth. Er y derbynnir nad oes llawer o bobl yn rhoi blaenoriaeth i'r gallu i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, rhaid ymchwilio a gwerthuso unrhyw rwystrau i'r rhai sy'n dymuno dysgu'r iaith mewn dosbarthiadau iaith. Yn sicr gellid dadlau y gall y mecanweithiau cyllido presennol – sy'n mynnu bod nifer benodol o ddysgwyr mewn dosbarth cyn rhyddhau unrhyw arian - fod yn rhwystr yn aml i ddysgwyr brwdfrydig mewn ardaloedd lle nad oes llawer o ddysgwyr eisiau mynychu dosbarthiadau.

Fe allai ymchwil ddod i'r casgliad y gallai fod yn angenrheidiol ffurfio corff, yn cynnwys dwy isadran, a all hwyluso'r ddarpariaeth o strategaethau dysgu drwy drochi dwys a chymedrol. Gall y ddarpariaeth gyfredol weithio gydag ewyllys da ac ymroddiad y staff a'r myfyrwyr, ond gall fethu hefyd oni cheir strategaeth genedlaethol gyffredin.

Y Gymraeg fel cyfrwng addysgu

Ar hyn o bryd mae hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg yn dameidiog oherwydd bod strwythurau cyllido a phrinder hyfforddwyr dwyieithog cymwys yn amharu ar ddarpariaeth lwyr o hyfforddiant o'r fath yn y ddwy iaith. Efallai y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dymuno gofalu bod ELWa yn ceisio delio, i ddechrau, â'r prinder aseswyr a hyfforddwyr.

Yn bwysicach, dylid cyllido ymchwil yn ôl parodrwydd siaradwyr Cymraeg i fanteisio ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae ymchwil ddiweddar (e.e. ymchwil y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Addysg ar ran CCETSW ynghylch y defnydd o'r iaith gan hyfforddeion gwaith cymdeithasol yng Ngwynedd a Môn) yn awgrymu fod llawer o siaradwyr Cymraeg heb ddigon o hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol. Dylid ymchwilio, a darparu ar gyfer hyn.

Mae diddordeb y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes mewn systemau dwyieithog eraill (a welodd pan fu'n ymweld â Chanada yn ddiweddar) i'w groesawu. Gall Cymru ddysgu llawer oddi wrth wledydd sydd â system ddwyieithog fwy datblygedig o lawer - Quebec, Gwlad y Basg, Catalonia, rhannau o'r Iseldiroedd, etc. Awgrymir y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fynd i'r afael â hyn gyda chyrrff perthnasol megis cangen Mercator yng Nghatalonia.

Technoleg newydd

Yn adolygiad diweddar y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o ddarpariaeth a chynllunio TGCh, awgrymwyd ffyrdd o ddefnyddio technoleg newydd er budd economi Cymru a'r iaith Gymraeg. Mae'r gallu i baratoi sawl fersiwn o'r un deunydd, mewn sawl iaith, yn gyfle euraid i gwmnïau yng Nghymru, dan gyfarwyddyd y Cynulliad Cenedlaethol, greu deunyddiau i bobl Cymru yn y ddwy iaith genedlaethol. Yn ogystal, gellid defnyddio ieithoedd eraill ar un darn o feddalwedd (e.e. ieithoedd lleiafrifol a / neu ieithoedd Celtaidd eraill. Mae datganiad diweddar y Cynulliad ar ddarparu mynediad band llydan fforddiadwy yn gyfle pellach. Awgrymir bod y mater yn cael ei drafod ymhellach â Mercator yn Aberystwyth.

3. CYMELL DWYIEITHRWYDD A CHYNNAL CONSENSWS CENEDLAETHOL

Yn ystod haf 2001 daeth yr iaith Gymraeg yn bêl droed wleidyddol. Mae agweddau o'r fath yn annerbyniol – mae tynged yr iaith yn rhy bwysig i gael ei defnyddio gan unigolion, o ba gefndir gwleidyddol bynnag, i ymosod ar wrthwynebwyr. Nid yw datgan pryder ynghylch tynged yr iaith yn arwydd o "ffasgaeth", ac ni fydd diogelu hawl yr unigolyn i fyw yn rhydd lle bynnag y dymunant yn cyfrannu ychwaith at dranc yr iaith. Rhaid i ni, fel cenedl, gyrraedd tir canol sy'n diogelu hawliau pobl Cymru a thu hwnt, y siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg, i fyw yn rhydd yng Nghymru drwy gyfrwng eu dewis iaith. Yng nghyd-destun Deddf yr Iaith Gymraeg (1993), mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod ac yn cefnogi Cymru fel cenedl amlddiwylliannol yn yr 21ain ganrif, yn unol â'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (1976), y Ddeddf Iawnderau Dynol (2000), y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) (2000) a'r Safonau Cydraddoldeb generig sydd newydd gael eu sefydlu ar lefel llywodraeth leol yng Nghymru.

Daeth yn amlwg fod yn rhaid cynnal consensws ar lefel genedlaethol, a rhaid i unrhyw gamau i warchod yr iaith Gymraeg gael eu cymryd gyda chefnogaeth ac ewyllys da pobl Cymru.

Ar hyn o bryd cafodd y ddadl ei boddi gan gamddealltwriaeth a drwgdybiaeth. Gall y Cynulliad Cenedlaethol chwarae rhan allweddol wrth lywio drwy'r canol a diogelu statws yr iaith Gymraeg fel un o ieithoedd cenedlaethol Cymru.

Mae enghraifft amlwg o gamddealltwriaeth yn ymwneud â rôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Rhaid diffinio pwerau a chyfrifoldebau'r Bwrdd yn glir fel y gall gynnig mwy o gymorth i gyrff ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg. Felly, gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol weithredu ar fyrder i geisio cael eglurhad o'r gydberthynas rhwng Deddf Llywodraeth Cymru (1998) a Deddf yr Iaith Gymraeg (1993). Yn fwy penodol, dylid chwilio am ateb i'r cwestiwn a ofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol (24.5.2001) ynghylch y berthynas hon. Byddai cael ateb pendant yn caniatáu strategaethau iaith cadarn yn y dyfodol.

Mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn credu ar hyn o bryd fod cael gwasanaeth cyfrwng Cymraeg yn aml yn golygu llawer o amser ac yn anodd. Mae'n rhwydd rhoi'r gorau iddi a derbyn gwasanaeth cyflymach drwy gyfrwng y Saesneg. Ni all gweinyddiaeth cyfrwng Cymraeg hygyrch ond fod o gymorth i greu hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg fod yna wasanaeth ar eu cyfer ac y gallant ddefnyddio'u sgiliau ieithyddol. Yn fyr, bod yr iaith Gymraeg yn gydradd â'r iaith Saesneg.

4. BUDDSODDIAD CYHOEDDUS A STRWYTHURAU CYLLIDO

Mae meithrin dwyieithrwydd yn y sector cyhoeddus yn gam cymharol rwydd i'w gymryd, yn enwedig i'r rhai – megis awdurdodau lleol yng ngogledd a gorllewin Cymru – sydd eisoes yn gweithio i raddau helaeth yn ddwyieithog. Gellid cyflawni hyn yn gyflym drwy gael cyllid ychwanegol gan y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn darparu cyfarpar cyfieithu o ansawdd, a chyflogi cyfieithwyr, ym mhob siambr awdurdod lleol. Fe gymerwyd cam tebyg eisoes wrth ddarparu cyfleusterau cynadledda fideo ym mhob awdurdod lleol – nawr fe ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddangos ei fod yn rhoi gwerth ar ryddid pobl i wneud defnydd cydradd o'u dewis iaith. Byddai hyn yn golygu buddsoddiad cymharol

fach i ddechrau, ond byddai'n cyfleu neges glir fod yr iaith Gymraeg, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg, yn iaith swyddogol yn ardal eu hawdurdod.

Yn yr hirdymor, mae angen gweithredu ar yr amrediad o strwythurau a awgrymir drwy'r papur hwn, ac er mwyn gwneud hynny, rhaid ceisio a sicrhau cefnogaeth pob haen o lywodraeth yng Nghymru, yn ogystal â phobl Cymru. Mae'r papur hwn yn awgrymu rhai strategaethau y gellir eu gweithredu yn yr hirdymor er mwyn cyrraedd nod datganedig y Cynulliad Cenedlaethol o "Gymru ddwyieithog".

Fodd bynnag, ni allwn anghofio fod yr iaith ar hyn o bryd mewn cyflwr enbyd, a rhaid dangos sensitifrwydd tuag ati.

ATODIAD A: Rôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Sefydlwyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ar 1 Ebrill 1996, yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n bodoli er mwyn hyrwyddo democratiaeth leol ac mae'n cynrychioli buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae CLILC yn rhan gyfansoddol o'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, ond mae'n gwbl annibynnol arni wrth ddelio â materion Cymreig.

Mae aelodaeth awdurdodau lleol o CLILC yn wirfoddol, ac mae'r sefydliad yn cael ei ariannu yn llwyr gan danysgrifiadau'r aelod-awdurdodau.

Mae'r Gymdeithas yn ceisio gweithio drwy gonsensws, pan fo hynny'n bosib, rhwng yr holl aelod-awdurdodau. Caiff ei gwaith ei hwyluso gan y strwythurau a ganlyn:

- **Cyngor y Gymdeithas**

Mae iddo 70 aelod, gan gynnwys o leiaf ddau o bob aelod-awdurdod. Mae'r Cyngor yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn penodi Cadeirydd, Is-gadeirydd ac Arweinydd y Gymdeithas.

- **Y Pwyllgor Cydlyn**

Fel arfer, bydd yn cyfarfod unwaith y mis, ar wahân i fis Awst ac yn ystod y misoedd pan geir cyfarfod o'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor Cydlyn yn cynnwys arweinydd neu gadeirydd pob aelod-awdurdod, ynghyd ag un cynrychiolydd o'r awdurdodau tân ac un o'r awdurdodau parciau cenedlaethol.

- **Llefarwyr Gwleidyddol**

Mae llefarwyr gwleidyddol CLILC yn cael eu penodi gan y Cyngor ac maent yn siarad ar ran llywodraeth leol ar bob agwedd ar fywyd cyhoeddus yng Nghymru.

- **Cynghorwyr Proffesiynol**

Caiff swyddogion o awdurdodau lleol yng Nghymru eu penodi gan y Cyngor i weithio gyda'u cymheiriaid i ddarparu cyngor ar bob agwedd ar waith llywodraeth leol.

- **Grwpiau Ymgynghorol**

Mae'r rhain yn gweithio ar sail 'gorchwyl a gorffen' er mwyn archwilio materion sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru ac adrodd ar y ffordd orau o ddatblygu polisi ac arferion yn y meysydd hyn.

Mae'r Gymdeithas wedi'i lleoli ym Mae Caerdydd, ac mae'n ymwneud â'r un amrediad eang o feysydd polisi â'r awdurdodau lleol eu hunain. Mae'n cyflogi Penaethiaid Polisi ar gyfer Materion Corfforaethol; Addysg, Hyfforddiant a Materion Diwylliannol; Materion Cymdeithasol; Cyllid a Materion Economaidd ac Amgylcheddol.

Mae'r Gymdeithas yn awyddus i adlewyrchu amrywiaeth iaith a diwylliant Cymru, ac fel y cyfryw mae'n ymwybodol o Gynlluniau Iaith Gymraeg yr awdurdodau lleol eu hunain.

Mae rôl y Gymdeithas fel y corff sy'n fantell i awdurdodau lleol yng Nghymru yn golygu ei bod mewn safle unigryw, sef cynrychioli barn gyfunol llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n gweithio gyda nifer o sefydliadau partner yng Nghymru, sy'n gyrff cyhoeddus anadrannol, sefydliadau gwirfoddol a charfanau pwysu. Mae wedi ymrwymo i gymell, cefnogi, a hwyluso cyfle cyfartal drwy ei phartneriaeth â'r sefydliadau hyn, sy'n cynnwys ceisio sicrhau statws cyfartal i'r iaith Gymraeg.